**Swyddfa'r Cygor ● Y Ganolfan Gymdeithasol ● Ffordd Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**

**01766 832 398 clerc @cyngortrefffestiniog.cymru**

# COFNODION CYFARFOD ARFEROL

# 12fed o Dachwedd 2020

**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**A GYNHALIWYD NOS IAU**
**12fed o Dachwedd 2020 AR LEIN AM 7.00 Y.H.**

| | | |
|---|---|---|
| CADEIRYDD : | Cynghorydd: | Erwyn Jones |
| YN BRESENNOL: | Cynghorwyr: | Mark Thomas, Annwen Daniels, Gwenlli Evans, Rory Francis, Bedwyr Gwilym, Mel Goch ap Meirion, Glyn Daniels. |
| | Swyddog Cyllid | David Williams |

**10859/11/20 1.YMDDIHEURIADAU**

Cynghorwyr: Ronwen Roberts
Glyn Daniels.( bydd rhai iddo fynychu'r cyfarfod yn hwyr)

**10860/11/20 2. DATGAN DIDDORDEB**

Annwen Daniels, **10868/11/20 10. A) Diweddariad ar Dir Tan Y Manod**
Gwenlli Evans, **10868/11/20 10. A) Diweddariad ar Dir Tan Y Manod**
Rory Francis, **10868/11/20 10. A) Diweddariad ar Dir Tan Y Manod**

**10861/11/20 3. MATERION BRYS**

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
**Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**
Bu i'r Cadeirydd ofyn a oedd y Cynghorwyr i gyd wedi derbyn a darllen yr e-bost Unllais gan y Dirprwy Glerc ynglŷn â Rheolau cynnal cyfarfodydd ar-lein. Mae'r rheolau yn egluro'r drefn ymddiheuriadau a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn unol â rheolau sefydlog y Cyngor Tref. Nid ydi diffyg dealltwriaeth o'r dechnoleg yn rheswm i beidio mynychu cyfarfodydd gan fod hyfforddiant ar gael.

PENDERFYNIAD: I gysylltu efo'r Dirprwy Glerc os oes angen hyfforddiant.

**10862/11/20 4. DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 8fed o Hydref 2020**

Cynghorydd Annwen Daniels yn cynnig cywirdeb i eitem 10857/10/08 16. Newyddion o Gyngor Gwynedd fel bod yn darllen 97 o swyddogion a Chynghorwyr.
Cynghorydd Annwen Daniels yn cynnig derbyn y cofnodion gyda chywirdeb, Cynghorydd Gwenlli Evans yn eilio.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion gyda chywirdeb.

**10863/11/20 5. DERBYN A CHADARNHAU ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU 15FED O HYDREF 2020**

PENDERFYNIAD: I roi o flaen y cyfarfod arferol nesaf.

**10864/11/20 <u>6. Cyfrifon wedi/i'w talu</u>**

Cyfrifon 09.10.20 - 12.11.20 (dirprwyo yn ystod pandemic Covid-19)

**Cyfrifon 2020-2021 (Wedi'u Talu)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16/10/2020 | Gwalltgofiaid/ Clwb Clic | Cyfraniad (Pwyllgor Mynderau?) | £980.00 |
| 16/10/2020 | History Points | QR Codes ar colofnau ayb (Pwyllgor Mynderau?) | £70.00 |
| 16/10/2020 | BT | Ffôn a'r Wê | £68.99 |
| 17/11/2020 | British Gas | Trydan y Pafiliwn | £15.63 |

**Cyfrifon 2020-2021 (I'w Talu)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 05/10/2020 | Zoe Pritchard | Ad-daliad am ffioedd Zoom Hydref 2020 | £14.39 |
| 12/10/2020 | Alfa Tree Services | Torri coed a chlirio yn Cae Baltic | £408.00 |
| 14/10/2020 | Cyngor Gwynedd | Gwasanaeth Archwilio Mewnol (David Lloyd-Williams) hyd at ddiwedd Medi 2020 | £5,087.56 |
| 29/10/2020 | D & C Jones | Gwaith weldio (Parc Sglefrio) | £432.00 |
| 18/10/2020 | Helen Jones (Mrs P H Jones) | Torri a chlirio gwair yn y Parc | £140.00 |
| 29/10/2020 | Helen Jones (Mrs P H Jones) | Torri gwrychoedd/coed a thacluso yn gardd y Stryd Fawr | £140.00 |
| 31/10/2020 | Y Ganolfan | Rent y Swyddfa Tachwedd | £430.00 |
| 12/11/2020 | HMRC | Diddymiadau PAYE Tachwedd 2020 | £731.06 |
| 12/11/2020 | Cyngor Gwynedd | Pensiwn Tachwedd 2020 | £1,334.78 |
| 12/11/2020 | Zoe Pritchard | Cyflog Tachwedd | £859.01 |
| 12/11/2020 | Eirian Barkess | Cyflog Tachwedd | £1,871.83 |
| | | | **£ 12,583.25** |

Arian i mewn

**£ -**

PENDERFYNIAD: Cyngor yn caniatáu i'r Swyddog Cyllid dalu..

**10865/11/20** **7. Cyfrifon Misol y Cyngor Tref**

| **Taliadau/ Payments** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflogau/ Salaries | 49% | £ | 43,791.56 |
| Cyffredin / General | 55% | £ | 13,063.63 |
| Cyfraniadau A137/ Donations S137 | 0% | £ | - |
| Cyfraniadau / Donations | 19% | £ | 1,530.79 |
| Llwybrau / Footpaths | 0% | £ | - |
| Nadolig / Christmas | 0% | £ | - |
| Mwynderau / Amenities | 1% | £ | 526.00 |
| Caeau Chwarae / Playing fields | 42% | £ | 23,759.77 |
| Incwm / Income | 0% | £ | - |
| Aelodau / Members | 13% | £ | 1,350.00 |
| Yswiriant ayb / Insurance etc | 67% | £ | 4,593.84 |
| Llochesi bws / Bus shelters | 81% | £ | 4,375.76 |
| | 37% | **£** | **92,991.35** |
| Taliadau/Payments | | **£** | **92,991.35** |
| TAW/VAT | | £ | 5,560.16 |
| | | **£** | **98,551.51** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfredol/Current | £ | 179,073.00 |
| Reserve (03/07/2020) | £ | 0.15 |
| Capital Res (05/08/2020) | £ | 67,582.61 |
| | **£** | **246,655.76** |
| Heb eu talu/unpaid | £ | 11,865.46 |
| | **£** | **234,790.30** |
| cr heb eu talu | | |
| | **£** | **234,790.30** |
| Balans / Balance 01/04/20 | £ | 87,451.46 |
| Arian i fewn / Monies in | £ | 245,890.35 |
| Taliadau / Payments | £ | 98,551.51 |
| | **£** | **234,790.30** |
| Mewn Llaw / In hand | **£** | **234,790.30** |
| TAW/VAT | £ | 5,560.16 |
| | **£** | **240,350.46** |

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cyfrifon

**10866/11/20** **<u>5. CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio.

1. . **Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No** NP5/59/797

Ymgeisydd / Applicant Mr. & Mrs. Dylan & Tina Taylor

Bryn Golau, 13, Heol Yr Orsaf, Llan Ffestiniog, LL41 4NN

Codi estyniad deulawr yn y cefn a newidiadau i'r ports blaen

PENDERFYNIAD: I drafod yn Pwyllgor Mwynderau 19eg o Dachwedd 2020

2. **Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No.** C20/0587/03/DT

Ymgeisydd / Applicant Mrs Summan

Talwaenydd House, Talywaenydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3NA

Estyniad ochr deulawr Two Storey Side Extension

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad

**3. Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No.** C20/0839/03/LL

Ymgeisydd / Applicant Mr Gwyn Jones (Rehau)

Rehau Plastics, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3RY

Adeiladu cyfleuster loceri newydd ar gyfer 68 locer mewn gwagle rhwng y brif swyddfa a'r cyfleuster ffactri cynhyrchu ynghyd ac adeiladu llwybr dan do rhwng y swyddfa a'r ffactri a defnyddio darn o'r adeilad presennol i ffurfio 3 swyddfa ychwanegol gyda derbynfa i'r cefn ar gyfer danfon a derbyn nwyddau faniau gwyn Construction of a new locker facility for 68 lockers in the space between the main office and the production plant facility together with construction of a covered way between the office and plant along with repurposing space to create 3 additional offices with a reception at the rear for the delivery and receipt of white van goods

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad

4. **Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No.** C20/0767/03/LL

Ymgeisydd / Applicant (Beatons Accountants Ltd)

Jones Street, Blaenau Ffestiniog, LL41 3YF

Codi modurdy ddwbl newydd/Construction of a new double garage

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad

**5. Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No.** C20/0808/03/DT

Ymgeisydd / Applicant Mr Chris Robinson

Cross Keys, 46 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3AA

Cais Deiliaid Tŷ

Adeiladu sied Construction of shed

PENDERFYNIAD: I drafod yn Pwyllgor Mwynderau 19eg o Dachwedd 2020

**6. Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No.** C20/0784/03/YA

Ymgeisydd / Applicant Mrs D P Rowlands

Cae Du, Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4BB

Addasu adeilad allanol er mwyn storio peiriannau amaethyddol/Adapt outbuilding to store agricultural machinery

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad

**7. Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No.** C20/0757/03/RA

Ymgeisydd / Applicant Mr Gerallt Williams

Nant Y Mynydd Cae Clyd, Cae Clyd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4AU

Addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio

PENDERFYNIAD: I drafod yn Pwyllgor Mwynderau 19eg o Dachwedd 2020

**8. Cais Cynllunio Rhif / Planning Application No.** C20/0863/03/LL
Ymgeisydd / Applicant Helen Jones

1 Trem Y Fron, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3DP

Adeiladu modurdy dwbl Construction of double garage

PENDERFYNIAD: I drafod yn Pwyllgor Mwynderau 19eg o Dachwedd 2020

**10867/11/20 9.TREFNU DYDDIAD I ADOLYGU POLISÏAU A RHEOLAU SEFYDLOG**

Bu i'r Cyngor drafod adolygu'r polisïau a rheolau adolygu yn y cyfarfod arferol nesaf.

PENDERFYNIAD: I'r Dirprwy glerc e-bostio'r polisïau a rheolau sefydlog i'r cynghorwyr ddarllen yn barod i'r adolygiad yn cyfarfod arferol 10fed Rhagfyr 2020.

**Y CYNGOR TREF**

**10868/11/20 10. A) Diweddariad ar Dir Tan Y Manod**

Bu i'r Cyngor drafod diweddariad ynglŷn â gwaith y Dref Werdd ar dir Tan y Manod.

PENDERFYNIAD: Gwirio bod y tir wedi cael i roi ar bolisi yswiriant a rhestr asedau'r Cyngor. Y Cyngor ddim eisiau pwll dwr ar y safle. Y cynghorydd Mark Thomas i siarad efo perchennog y ci oherwydd mae'r ci dal ar y tir.

**10869/11/20 10. B) Diweddariad ar Loches bws tu allan i Wynnes, Manod**

Bu i'r Cyngor drafod diweddariad ynglŷn â lloches bws Manod.

PENDERFYNIAD: I drafod y mater ym Mhwyllgor Mwynderau 19eg o Dachwedd 2020.

**10870/11/20 11. TREFNIADAU GOLEUADAU NADOLIG**

Bu i'r Cyngor drafod trefniadau goleuadau a choed Nadolig.

PENDERFYNIAD: Fydd ddim noson goleuo eleni oherwydd cyfyngiadau'r pandemic ond mae'r Cyngor yn teimlo bydd rhoi goleuadau ar stryd a choed Nadolig yn Llan a Blaenau Ffestiniog yn codi ysbryd y gymuned, felly'r un trefniadau a blwyddyn ddiwethaf. Rhaid cymryd stoc o'r goleuadau at flwyddyn nesaf.

**10871/11/20 12.ADRODDIAD STAFF Y CYNGOR TREF.**

Cyfle i'r Clerc / Ddirprwy Glerc rhoi diweddariad i'r Cynghorwyr o ddatblygiadau tasgau a rhaglen waith.

PENDERFYNIAD: Bu i'r Cyngor drafod oriau agor y swyddfa a phenderfynu bod canllawiau llywodraeth Cymru yn dal i ddeud gweithio o adra os yn bosib, felly i'r Dirprwy Glerc i ddal gweithio o adra ac i'r swyddog cyllid drefnu lwfans gweithio o adra i ad dalu am gostau inc ac adnoddau tebyg mae'r Dirprwy Glerc yn defnyddio drwy weithio o adra.

**Datblygiadau yn yr ardal**

**10872/11/20 13. IECHYD**

Dim i drafod

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**Materion yn codi**

**10873/11/20 14. CAEAU CHWARAE**

Trafod unrhyw broblemau sydd wedi codi

Neb wedi trio am y gwaith archwilio misol y caeau chwarae felly ail hysbysebu ar facebook.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**10874/11/20** **15. MAES PARCIO TU OL I 5 STRYD FAWR**

Bu i`r Cynghorydd Annwen Daniels rhoi gwybod ir Cyngor ei bod wedi derbyn nifer o gwynion gan staff y Dref Werdd a trigolion 4 -7Stryd Fawr eu bod wedi cael tocynnau parcio oherywdd bod y maes parcio yn un arhosiad byr. Mae hi wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd a bydd y maes parcio yn newid i un arhosiad hir.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**10875/11/20** **16. HEN BINIAU YSBWRIEL Y CYNGOR**

Bu ir Cyngor drafod bod nifer o biniau ysbwriel dal tu ol i`r hen swyddfa a bydd angen i symud nhw cyn gynted a phosib. Mae cymdeithas Egwlys Llan wedi gofyn os nad ydy nhw yn mynd i gael i defnyddio gan y Cyngor, oes bosib iddynt gael nhw.

PENDERFYNIAD: I adael yr Eglwys fynd a nhw a symud y gweddill.

**10876/11/20** **17. PROSIECT YOUTH SHEDZ - ADEILADU BOCSYS BLODAU**

Bu i`r Dirprwy Glerc rhoi gwybod i`r Cyngor bod Scott Jenkinson o Youth Shedz wedi cysylltu yn rhoi gwybod fod y criw ifanc am cynyrchu bocsys blodau allan o bren ac byddai gan y Cyngor Tref ddiddordeb mewn defnyddio rhai i`r dref.

PENDERFYNIAD: Gan fod y tybiau blodau crwn sydd yn y dref yn dechrau pydru byddai y Cyngor yn awyddus i gael y bocsys pren newydd gan y Youth Shedz a cefnogi prosiect da yn y gymuned.

**18. Materion er gwybodaeth**

Cyfle i Gynghorwyr adrodd yn ôl i'r Cyngor yn dilyn eu presenoldeb mewn pwyllgorau allanol

**10877/11/20** **Pwyllgor Cyswllt y Chwarel**

Bu i Cynghorydd Erwyn Jones egluro ei fod o a Cynghorydd Annwen Daniels wedi cael gwahoddiad i cyfarfod gyntaf y Pwyllgor Cyswllt gan Welsh Slate/Beetons. Bu ir ddau fynychu y cyfarfod gyntaf ar 12fed o Dachwedd 2020. Pwrpas y pwyllgor ydi i gyfarthrebu gwybodaeth i`r gymuned. Mae pwyllgor wedi bodoli yn Bethesda ers rhai blynyddoedd ac wedi profi fod y pwyllgor yn llwyddianus. Mae y pwyllgor yn gofyn i`r Cyngor Tref os bydda unrhyw un or cynghorwyr yn fodlon mynychu y pwyllgor?

PENDERFYNIAD: I`r Cadirydd fynychu rhai o`r cyfarfodydd a Cynghorwyr Rory Francis a Gwenlli Evans efo diddordeb mynychu.

**10878/11/20 <u>Cwn yn fynwent Llan Ffestiniog</u>**

Bu i`r Cynghorydd Glyn Daniels rhoi gwybod i`r Cyngor Tref ei fod wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion yr ardal am cwn a baw cwn yn fynwent Llan Ffestiniog. Mae arwyddion dim cwn, ond ci tywys, ond yn amlwg mae angen mwy mewn lleoliad gwell.

PENDERFYNIAD: I`r Cyngor Tref gysylltu efo Cyngor Gwynedd yn gofyn am fwy o arwyddion gael i arddangos.

**10879/11/20 <u>Y Siop Werdd</u>**

Yn dilyn agoriad y Siop Werdd ar y Stryd yr Eglwys, hoffai'r Cyngor Tref longyfarch a diolch i'r staff am eu gwaith caled a dymuno pob lwc iddynt yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

**10880/11/20 <u>Pwyllgor Wifi Cymunedol</u>**

Bu i`r Dirprwy Glerc rhoi gwybod i`r Cyngor Tref ei bod yn gweithio ar sefydlu Pwyllgor Wifi Cymunedol er mwyn i fusnesau lleol fanteisio ar y data sydd yn cael eu casglu er lles eu busnes.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

**10881/11/20 <u>19.NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD</u>**

Dim newyddion

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

**10882/11/20 <u>20. NEWYDDION ARALL</u>**

Dim newyddion

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

**10883/11/20 <u>21. GOHEBIAETH</u>**

Clerks & Councils Direct

Cyfnodolyn Tachwedd 2020

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00yh

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS IAU 10fed O Ragfyr 2020**
**AR LEIN AM 7YH**

**CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 7fed O Ragfyr 2020.**

CADEIRYDD